O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2014 Rhif 1504 (Cy. 154)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A44 (Gelli Angharad, i'r Dwyrain o Aberystwyth, Ceredigion) (Terfyn Cyflymder o 40 MYA Dros Dro) 2014

Gwnaed	*6 Mehefin 2014*
Yn dod i rym	*13 Mehefin 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd y Drenewydd – Aberystwyth (yr A44) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd perygl i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 13 Mehefin 2014. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A44 (Gelli Angharad, i'r Dwyrain o Aberystwyth, Ceredigion) (Terfyn Cyflymder o 40 MYA Dros Dro) 2014.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys;

ystyr "cyfnod cyfyngedig" ("*restricted period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 06:00 o'r gloch ar 13 Mehefin 2014 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A44 yng Ngelli Angharad, i'r dwyrain o Aberystwyth yn Sir Ceredigion a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Cyfyngiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod cyfyngedig, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd.

Cymhwyso

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 6 Mehefin 2014

R MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLEN

1) Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 124 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r A4159 wrth Gylchfan Gelli Angharad hyd at bwynt 510 o fetrau i'r gorllewin o'r canolbwynt hwnnw.

2) Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 124 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r A4159 wrth Gylchfan Gelli Angharad hyd at bwynt 846 o fetrau i'r dwyrain o'r canolbwynt hwnnw.